WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012

# Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 622A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan:
John Herniman, Dave Thomas, Claire Worrall a Malcolm Latham.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Ynghylch yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio'r cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny a gosod adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio | 9 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau | 13 |
| Mae tystiolaeth bod ymagwedd lwyddiannus a chynaliadwy at reoli ariannol yn cael ei datblygu; bydd llwyddiant ar gyfer y flwyddyn yn dibynnu ar sicrhau arbedion sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn | 13 |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau a ddylai sicrhau ei fod yn darparu llywodraethu effeithiol a sicrwydd bwrdd, er y gellir gwella'r trefniadau hyn yn fwy byth | 15 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol | 19 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 23 |
| Ffi archwilio | 24 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2012.

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**3.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**4.** Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio'r cyfrifon

**5.** Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys camddatganiad nas cywirwyd ynglŷn â chynnydd yng nghyfraniadau Cyngor Sir Fynwy at Gynllun Menter Cyllid Preifat Dyffryn Mynwy, yr angen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar daliadau yn y sector cyhoeddus, a'r angen i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau ar gyfer datgeliadau newydd 'Hutton' ar gyflogau.

**6.** Hefyd rwyf wedi gosod adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae f'adroddiad yn tynnu sylw at yr arian ychwanegol a gafodd y Bwrdd Iechyd, yn bennaf i'w alluogi i gyflawni ei dargedau ariannol. Sicrhaodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2011-12, o ganlyniad i werth £4.5 miliwn o gymorth ariannol ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru a gafwyd ym mis Mawrth. Roedd yr arian ychwanegol yn tynnu ymlaen arian o 2012-13 a chaiff ei ddychwelyd trwy dynnu swm cyfwerth o'r arian a ddyrennir i 2012-13.

**7.** Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:

- paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
- roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol digonol i leihau risg camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; ac
- roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod nifer o wendidau yn y systemau y mae angen i'r rheolwyr weithredu arnynt.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

**8.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig wedi ymchwilio i gadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd a digonolrwydd ei fframwaith sicrwydd Bwrdd a'i amgylchedd rheolaeth fewnol. Hefyd gwnaed adolygiadau archwilio perfformiad ar feysydd penodol lle y darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi f'arwain at y casgliadau canlynol:

### Mae tystiolaeth bod ymagwedd lwyddiannus a chynaliadwy at reoli ariannol yn cael ei datblygu; bydd llwyddiant ar gyfer y flwyddyn yn dibynnu ar sicrhau arbedion sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn

**9.** Mae canfyddiadau allweddol f'adolygiad o drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:

- mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol a diffyg o £6.1 miliwn yw'r alldro ar gyfer saith mis cyntaf 2012-13, fodd bynnag, er bod risgiau i'w rheoli o hyd mae'r Bwrdd yn rhagweld y bydd yn cyflawni ei darged o fantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar gynnydd ariannol yn gyson ac yn dryloyw, fodd bynnag mae angen gweithredu i lunio cynllun integredig ar gyfer y tymor canolig sy'n nodi'r gofynion o ran gwasanaethau a'r gweithlu a gofynion ariannol sy'n tanategu'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau a ddylai sicrhau ei fod yn darparu llywodraethu a sicrwydd bwrdd effeithiol er y gellir gwella'r trefniadau hyn yn fwy byth

**10.** Canfu f'adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd:

- fod y rhan fwyaf o'r meysydd a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd wedi dangos gwelliant, er bod lle o hyd i wella rhai o'r trefniadau hyn fel rhan o nod datganedig y Bwrdd o fod 'y gorau o'i fath';
- bod gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol sy'n cefnogi sicrwydd bwrdd effeithiol a chanfod a rheoli risg;
- bod gan y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer llunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol;
- y darperir gwybodaeth reoli berthnasol i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau ac mai'r her yn y dyfodol yw sicrhau bod y wybodaeth hon yn canolbwyntio ar y materion sy'n cefnogi craffu a phenderfynu effeithiol ac yn rhoi blaenoriaeth i'r materion hynny;
- er bod yna brosesau i gynnal ansawdd data a chydymffurfio â gofynion cyfrinachedd data, bod angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol; a
- bod paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi helpu i atal a chanfod nifer o achosion o dwyll.

### Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

**11.** Canfu f'adolygiad o ddefnydd y Bwrdd Iechyd o adnoddau:

- Fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno nifer fawr o welliannau i'w wasanaethau rheoli gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig a'i fod yn arfer dull o drawsnewid gwasanaethau ar sail systemau cyfan. Er bod hyn yn cael effaith, mae angen gwella'r perfformiad yn fwy byth ac mae pwysau sylweddol o hyd ar wasanaethau acíwt.
- Bu gwelliannau amlwg yng ngwaith y Bwrdd Iechyd wrth gynllunio'r gweithlu ac mae hyn yn newid sylweddol ers y llynedd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu dull rhagweithiol, cynhwysfawr ac amserol o ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan annatod o'i ddull o foderneiddio gwasanaethau.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu argymhellion o waith archwilio blaenorol, er bod angen mynd i'r afael â rhai camau gweithredu pwysig o hyd.

## Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Tîm Gweithredol

**12.** Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Rhagfyr 2012. Yna fe'i cyflwynir i gyfarfod dilynol y Bwrdd a darperir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

**13.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynghylch yr adroddiad hwn

**14.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Tachwedd 2012

**15.** Ymgymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a. archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b. bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a

c. bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**16.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a ymchwiliodd i'r trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a'r defnydd o adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- gwaith archwilio perfformiad a wnaed yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**17.** Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**18.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio'r cyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**19.** Yn olaf, mae Atodiad 2 yn rhoi'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol gwneud fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ac yn dangos y disgwylir iddi fod yn unol â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio’r cyfrifon

**20.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau f’archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a cholledion cydnabyddedig a’i lif arian parod drwy'r datganiadau hyn. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

## Fy nghyfrifoldebau i

**21.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt heb gamddatganiadau perthnasol – waeth wedi’u hachosi drwy dwyll neu drwy wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**22.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**23.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ymchwilio i ddigonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a’r
- systemau ariannol ar gyfer llunio’r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny a gosod adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**24.** Daeth y datganiadau ariannol drafft i law erbyn y terfyn amser sef 4 Mai 2012 ac fe'u hadolygwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 15 Mai. Paratowyd y datganiadau ariannol i safon dderbyniol a chawsant eu hategu gan bapurau gwaith ar y cyfan. Fel yn achos y flwyddyn flaenorol, mae hyn yn gyflawniad sylweddol o gofio her amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol drafft, sy'n rhoi cryn dipyn o bwysau ar Dîm Cyllid y Bwrdd.

**25.** Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â staff cyllid y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau y gallwn ddatblygu a chryfhau gweithdrefnau ar gyfer adroddiadau ariannol diwedd-blwyddyn yn fwy byth. Rydym wedi cynnal cydgyfarfod Dysgu Ôl-brosiect ac wedi defnyddio'r canlyniadau i lywio ein gwaith cydgynllunio gyfer 2012-13. Cyflwynwyd adroddiad ar y manylion dysgu Ôl-brosiect i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2012.

**26.** O dan ISA 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 1 Mehefin 2012 ac i'r Bwrdd ar 6 Mehefin 2012. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Cafodd Eiddo, Peiriannau ac Offer a Symiau Taladwy Anghyfredol eu gorddatgan o £198,376 a £199,114 yn y drefn honno. Roedd y camddatganiad hwn yn ymwneud â chynnydd yng nghyfraniad Cyngor Sir Fynwy at gynllun Menter Cyllid Preifat Dyffryn Mynwy. Yr effaith gyfan ar y sefyllfa incwm a gwariant oedd bod y gwarged wedi cael ei danddatgan o £738. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Cafodd nifer o gamddatganiadau eu cywiro gan reolwyr, a gwnaed nifer o newidiadau eraill i ddatgeliadau er mwyn gwella'r ffordd y câi'r cyfrifon eu cyflwyno a chywiro ffigurau anghywir. O wneud y newidiadau hyn cafodd y gwarged a gofnodwyd ei leihau o £58,000 i £14,000. |

| Mater | Sylwadau’r archwilwyr |
|---|---|
| Hawliadau gofal iechyd parhaus | Cyfyngedig fu'r cynnydd ledled Cymru o ran asesu hawliadau heb eu setlo am ofal iechyd parhaus, ac o ganlyniad mae’r ddarpariaeth gysylltiedig yn faes allweddol lle amcangyfrifir. Adolygasom sail yr amcangyfrifon ar gyfer darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn ar gyfer y costau hyn ac rydym yn fodlon eu bod yn rhesymol. |
| Polisi taliadau’r sector cyhoeddus | Er i'r Bwrdd nodi bod 96.4 y cant o gredydwyr nad ydynt yn rhai'r GIG wedi'u talu cyn pen 30 diwrnod, gall y ffordd y triniwyd anfonebau arwain at gamddatgan y perfformiad hwn. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn 'dechrau'r cloc' o ran perfformiad talu anfonebau yn seiliedig ar ddyddiad yr anfoneb neu'r dyddiad y daeth y nwyddau i law os yw hwnnw'n ddiweddarach. Fodd bynnag, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r amser ddechrau pan fo’r Bwrdd Iechyd yn cael yr anfoneb. Hefyd, o ran anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, mae'r Bwrdd Iechyd yn ‘stopio'r cloc’ cyn gynted ag y bo anghydfod yn codi. Ni chaiff y cloc ei ailddechrau ar ôl i’r anghydfod gael ei ddatrys, ac mae hynny'n groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau’r GIG yn gwneud gwaith ar y mater hwn a disgwylir rhagor o welliannau ar gyfer 2012-13. |
| Datgeliadau ‘Hutton’ | Roedd yna ofyniad newydd yn 2011-12 i Fyrddau Iechyd ddatgelu cyflogau canolrifol eu staff. Cyhoeddwyd canllawiau manwl gan Lywodraeth Cymru ar y datgeliadau gofynnol tua diwedd mis Mai. Mae datgeliadau’r Bwrdd ar gyfer 2011-12 yn ymdrin â chyflogau sylfaenol yn unig, ac yn anghywir maent yn gadael allan elfennau eraill o gyflogau a hefyd yn gadael allan gweithwyr asiantaeth a gweithwyr dros dro eraill. Felly, fel y nodir yn y datganiadau ariannol, caiff y datgeliadau eu mireinio’n fwy yn natganiadau ariannol 2012-13. |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol newydd ei baratoi’n amserol, a chafodd y drafft cyntaf ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill 2012. Er ein bod yn cydnabod fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy’n cyd-fynd â’r cyfrifon drafft terfynol yn ddogfen gynhwysfawr, dylai’r Bwrdd ystyried dechrau’r broses o asesu’r fframwaith sicrwydd a darparu tystiolaeth ar gyfer cyflawniadau ar adeg gynharach er mwyn caniatáu i’r drafft cyntaf sy’n cyd-fynd â’r cyfrifon drafft fod yn fwy cyflawn. |

**27.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

a. Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2012, a bod y ffurflen wedi cael ei pharatoi i safon dda, yn unol â’r amserlenni gofynnol ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

b. Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio i raddau helaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gwellodd y broses mae’r Bwrdd Iechyd yn ei dilyn i lunio’r ddwy ddogfen hon eleni.

**28.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedolaeth yn cael ei gwblhau a chyflwynais f’adroddiad i'r Ymddiriedolwr ym mis Hydref 2012 ac i’r Bwrdd ym mis Tachwedd 2012. Rwyf yn disgwyl cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon tua dechrau mis Rhagfyr.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol digonol i leihau risg camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**29.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio’n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu’r amgylchedd rheolaeth fewnol i asesu a yw’n darparu sicrwydd bod y datganiadau ariannol heb gamddatganiadau perthnasol waeth wedi’u hachosi gan wall neu gan dwyll. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd. At hynny, rhoddodd 'Datganiad Sicrwydd ac Adroddiad Blynyddol' y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 sicrwydd ‘digonol' i'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn adlewyrchu system rheolaeth fewnol sy'n gadarn ar y cyfan ac sydd â chydymffurfiaeth weithredol yn gyffredinol. Canfu ein hadolygiad o’r elfennau TG o’r amgylchedd rheolaeth nad oedd cynlluniau parhad busnes lleol ar waith ar gyfer y system Oracle FMS a dylid paratoi cynlluniau o’r fath a rhoi prawf arnynt yn rheolaidd.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli’n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod nifer o wendidau system y mae angen i’r rheolwyr weithredu arnynt.

**30.** Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2012. Mae'r rhain yn cynnwys materion y cyfeirir atynt yn Arddangosyn 1 uchod. Cafod sylwadau manylach ar y systemau ariannol a chyfrifyddu eu cynnwys yn yr Adroddiad Datganiadau Ariannol a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2012.

**31.** Nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol rai gwendidau yn y ffordd mae’r rheolaethau’n cael eu cynllunio a’u defnyddio yn y Bwrdd Iechyd a allai beryglu cyflawni rhai amcanion system penodol. Roedd y gwendidau penodol a nodwyd gan adolygiadau’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol o’r system ariannol yn effeithio ar y gyflogres, caffael a thaliadau meddygol cymunedol. Nododd ei adolygiadau hefyd bod lle ar gyfer rhagor o welliannau mewn nifer o feysydd gweithredol. Mae canfyddiadau’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn galw am weithredu parhaus gan y rheolwyr. Mae cynlluniau gweithredu’r Bwrdd Iechyd wedi cael eu datblygu i gryfhau’r gwendidau rheolaeth a nodwyd ac mae’r Pwyllgor Archwilio’n craffu ar y cynnydd.

## Sicrhaodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2011-12, ond dim ond o ganlyniad i werth £4.5 miliwn o arian ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru; o gofio hyn, gosodais adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm hadroddiad archwilio

**32.** Mae'r gyfundrefn ariannol y mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd lleol (BILI) weithredu o'i mewn yn rhagnodi 'terfyn adnoddau' blynyddol ffurfiol. Terfyn net statudol ar wariant yw hyn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob BILI weithredu'n gaeth o fewn y terfyn adnoddau a osodir iddo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

**33.** Lle bo gwariant net BILI yn fwy na'r terfyn adnoddau, bernir bod y gwariant hwnnw heb ei awdurdodi ac mae felly'n afreolaidd. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol i mi gyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra, waeth beth fo gwerth y gorwariant. I'r gwrthwyneb, lle na fo'r gwariant net blynyddol a adroddir yn fwy na'r terfyn adnoddau, nid yw'n ofynnol gosod amod ar y farn ar reoleidd-dra (ar y sail hon).

**34.** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, £1,030.557 miliwn oedd gwariant net y Bwrdd Iechyd. £1,030.571 miliwn oedd ei derfyn adnoddau terfynol, oedd yn cynnwys £4.5 miliwn ychwanegol (0.4 y cant o'i derfyn adnoddau terfynol) y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2012. Roedd hyn yn golygu y byddai'r Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i'w derfyn adnoddau pe na bai wedi cael y swm ychwanegol o £4.5 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru er mwyn atal toriad o'r fath rhag digwydd. Yn gryno, cynyddodd Llywodraeth Cymru y terfyn adnoddau ym mis Mawrth 2012 i gyd-fynd â gwariant blynyddol net rhagweledig y Bwrdd Iechyd.

**35.** Felly roedd fy marn 'darlun cywir a theg' a'm barn ar 'reoleidd-dra' ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 yn ddiamod.

**36.** Roedd yr arian ychwanegol yn tynnu ymlaen arian o 2012-13 a chaiff ei ddychwelyd trwy dynnu swm cyfwerth o'r arian a ddyrennir i 2012-13. Felly mae'r dyraniad ar gyfer 2012-13 £4.5 miliwn yn is nag y buasai fel arall ac, o ganlyniad, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau arbedion ychwanegol i gau'r bwlch rhwng yr adnoddau a ddyrennir iddo a'i batrwm gwario sylfaenol. Rwyf wedi cyhoeddi adroddiad naratif ochr yn ochr â'm hadroddiad archwilio ar ddatganiadau ariannol 2011-12 i dynnu sylw at y mater hwn ac i ddarparu rhagor o fanylion am sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd.

**37.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i wynebu her ariannol sylweddol gyda phwysau costau o ryw £48 miliwn yn 2012-13. Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol pob bwrdd iechyd yng Nghymru fel rhan o'm rhaglen waith ar gyfer 2012-13.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

**38.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o sicrhau cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd trwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig gyda phwyslais arbennig ar gadernid fframwaith sicrwydd ac amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol y Bwrdd;
- gwaith penodol ar y defnydd o adnoddau ym meysydd gofal heb ei drefnu, rheoli cyflyrau cronig, cynllunio'r gweithlu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid; ac
- asesu'r cynnydd mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a ganfuwyd gan waith archwilio blaenorol ar ansawdd data, y contract meddygon ymgynghorol, a gwasanaethau mamolaeth.

**39.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn isod.

## Mae tystiolaeth bod ymagwedd lwyddiannus a chynaliadwy at reoli ariannol yn cael ei datblygu; bydd llwyddiant ar gyfer y flwyddyn yn dibynnu ar sicrhau arbedion sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i wynebu pwysau ariannol sylweddol a'r alldro ar gyfer saith mis cyntaf 2012-13 yw diffyg o £6.1 miliwn, fodd bynnag, er bod risgiau i gael eu rheoli o hyd, mae'r Bwrdd yn bwriadu cyflawni ei darged o fantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn

**40.** Cafodd Cynllun Blynyddol ar gyfer 2012-13 ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2012. Darparodd hwn gynllun ariannol cytbwys ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys targedau ar gyfer osgoi costau a sicrhau arbedion. Nododd y cynllun mai £48 miliwn oedd yr her ariannol, gan gynnwys ad-dalu broceriaeth o £4.5 miliwn a gafwyd ar ddiwedd 2011-12. £28 miliwn oedd y targed cynlluniau arbedion ac osgoi costau ar gyfer saith mis cyntaf 2012-13, ac roedd yn galw am sicrhau arbedion o oddeutu £4 miliwn pob mis. Fodd bynnag, nodwyd na fyddai pob un o'r cynlluniau y bwriedid iddynt arwain at gydbwysed ariannol erbyn diwedd y flwyddyn yn cael eu cyflawni'n wastad trwy'r flwyddyn. Mewn gwrthgyferbyniad â'r llynedd, mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2012-13 wedi ceisio osgoi mesurau anghynaliadwy i leihau costau megis rhoi terfyn ar oramser a pheidio â llenwi swyddi gwag. Yn lle hynny mae'r cynllun ariannol

wedi ceisio cynnwys gorgyflawni mewn rhai meysydd er mwyn darparu arian wrth gefn ar gyfer llithriant neu fethiant i gyflawni mewn meysydd eraill.

**41.** Ym mis saith adroddodd y Bwrdd ei fod wedi cyflawni gwerth £22.1 miliwn o arbedion ac osgoi costau ar draws ei bum rhaglen newid strategol allweddol, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o feddyginiaethau, lleihau'r angen am arosiadau mewn ysbytai ac ad-drefnu gwasanaethau'n unol â'r Strategaeth Dyfodol Clinigol. Penodwyd Arweinydd Gweithredol i bob un o'r rhaglenni newid hyn i gryfhau'r trefniadau goruchwyliaeth. Yr arbedion a adroddwyd sydd y tu ôl i'r cynllun a gymeradwywyd ar gyfer cyfanswm arbedion am y flwyddyn oherwydd eu bod wedi cael eu proffilio ar sail linol yn hytrach nag adlewyrchu proffil y cynlluniau arbedion sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r arbedion a gyflawnwyd hyd yma'n gyson â phroffil y cynlluniau arbedion sylfaenol oherwydd y disgwylir y bydd y cynlluniau hyn yn gyffredinol yn darparu gwerth uwch yn ail hanner y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae risg yn dal i fod yn gysylltiedig â pharhau i gyflawni arbedion trwy'r flwyddyn. Mae gwaith manwl i fonitro cynnydd, yn ogystal â cheisio canfod rhagor o gyfleoedd i arbed arian, neu ddwyn ymlaen gynlluniau diweddarach lle bo angen, yn bwysig a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn bwrw ymlaen â'r holl arbedion posibl a nodwyd ac yn eu cyflawni cyn gynted ag sy'n bosibl.

**42.** Os gall y Bwrdd gyflawni ei gynlluniau arbedion a'i dargedau osgoi costau, ar y cyd gyda'r £10 miliwn o arian ychwanegol a gyhoeddwyd tua dechrau mis Rhagfyr 2012, bydd yn cyflawni ei darged statudol i fantoli'r gyllideb. Fodd bynnag, ym mis saith gydag adroddiadau o alldro o ddiffyg o £6.1 miliwn, mae risg peidio ag adfer y sefyllfa ariannol bresennol yn llawn i gydbwysedd ariannol erbyn diwedd y flwyddyn yn uchel o hyd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff y cynlluniau arbedion ac osgoi costau eu cyflawni'n llawn dros weddill y flwyddyn ariannol a lle bo tystiolaeth nad dyma'r sefyllfa, mae angen cymryd camau adferol prydlon a phenderfynol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar gynnydd ariannol yn gyson ac yn dryloyw, fodd bynnag mae angen gweithredu i lunio cynllun integredig ar gyfer y tymor canolig sy'n nodi'r gofynion o ran gwasanaethau a'r gweithlu a gofynion ariannol sy'n tanategu'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd

**43.** Mae'r Bwrdd wedi bod yn gyson ac yn dryloyw yn lefel y manylion ariannol a'r cynnydd a'r casgliadau mae wedi adrodd arnynt yn fewnol yng nghyfarfodydd y bwrdd a hefyd i Lywodraeth Cymru. Dros y cyfnod o fis Mehefin i fis Medi 2012, mae'r alldro yr adroddwyd arno wedi bod yn gyson â'r cynllun ariannol blynyddol, ac mae hyn wedi meithrin mwy o hyder yng nghywirdeb ac eglurder y broses cynllunio ac adrodd.

**44.** Disgwylir mai'r cynllun ariannol blynyddol sy'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2012-13 fydd yr olaf i gael ei baratoi gan y Bwrdd Iechyd. Yn 2012-13 mae'r Bwrdd yn bwriadu llunio cynllun ariannol manwl treigl, gan integreiddio elfennau refeniw a chyfalaf fel ei gilydd yn gyson â'i strategaeth tymor hirach. Fodd bynnag, nid oes cynllun o'r fath wedi cael ei baratoi eto a bellach dylai hyn fod yn un o brif flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae angen i'r cynllun nodi'r ymagwedd ariannol tymor canolig sy'n tanategu'r gwaith o gyflawni amcanion strategol ehangach y Bwrdd Iechyd

a dylai gynnwys agweddau gwasanaethau a'r gweithlu, yn ogystal ag agweddau ariannol. Bydd yr ymagwedd hon yn hanfodol i sicrhau bod modd cyflawni'r strategaeth tymor hirach.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau a ddylai sicrhau ei fod yn cyflawni llywodraethu a sicrwydd bwrdd effeithiol, er y gellir gwella'r trefniadau hyn yn fwy byth

**45.** Yn dilyn ad-drefnu'r GIG yng Nghymru yn 2009, roedd yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan, oedd newydd ei ffurfio, wneud cryn dipyn o waith i ddatblygu'r fframweithiau llywodraethu angenrheidiol. Ym mis Hydref 2010, nododd y Bwrdd ei gynllun pum mlynedd a ddisgrifiwyd gan f'archwilwyr fel llwyfan da ar gyfer sicrhau eglurder ar y camau gweithredu yr oedd eu hangen. Nododd y cynllun pum mlynedd hwn yr angen am ymgysylltu ac arweiniad clinigol cadarn a'r pwysigrwydd yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ei roi i'r rolau arweinwyr clinigol.

**46.** Ar yr un pryd, canfu fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2010 amrywiaeth o gamau gweithredu yr oedd eu hangen i sefydlu trefniadau'r Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau gweithlu ac ariannol cadarn, fframwaith cynllunio lleol a datblygu targedau a mesurau canlyniadau.

**47.** Yn 2011 nododd fy ngwaith archwilio ac asesu strwythuredig y cynnydd da yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud wrth gryfhau ei drefniadau llywodraethu oedd yn cynnwys ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid allanol, a chanolbwyntio'n fwy ar ddatblygu mesurau canlyniadau ac ymagwedd ddatblygol at reoli risg. Nododd fy ngwaith hefyd yr angen i wella adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd a sicrhau bod y strwythur is-bwyllgorau newydd yn sicrhau gwaith craffu gwell. Yn benodol, nododd fy ngwaith bwysigrwydd y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chynaliadwyedd newydd o ran cyflawni'r gwelliannau hyn.

**48.** Ers 2010, un thema gyson fu ymagwedd gadarnhaol y Bwrdd Iechyd at fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn f'adroddiadau, aeddfedrwydd datblygol ei drefniadau llywodraethu a'r pwysigrwydd a roddwyd i ymgysylltu â chlinigwyr a'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod i'w hun yr amcan clir o fod 'y gorau o'i fath' ac mae fy ngwaith archwilio ac asesu strwythuredig wedi canolbwyntio ar nodi'r gwelliannau y mae eu hangen i wireddu'r dyhead hwn.

### Cafwyd gwelliant yn y rhan fwyaf o'r meysydd a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd er bod lle o hyd i wella rhai o'r trefniadau hyn fel rhan o nod datganedig y Bwrdd i fod 'y gorau o'i fath'

**49.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o asesiad strwythuredig y llynedd ac wedi datblygu gwaith ei Bwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chynaliadwyedd newydd. Mae'r grŵp hwn yn ymchwilio i'r cydbwysedd rhwng sicrhau perfformiad gwasanaethau a thargedau ariannol, ac yn cyflawni'r cydbwysedd hwnnw.

**50.** Mae'r trefniadau adrodd ar berfformiad wedi gwella ac er bod yr adroddiadau'n canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol, mae mwy y gellid ei wneud i ddarlunio effaith camau rheoli a datblygu dangosyddion i dracio cynnydd yn erbyn blaenoriaethau lleol ac effaith camau lliniaru i fynd i'r afael â risgiau.

**51.** Mae yna ymagwedd fwy aeddfed at reoli risg a gwell dealltwriaeth gan y sefydliad o oddefiad risg y Bwrdd, fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd fwy gwybodus gan wybod beth yw'r effeithiau tebygol. Mae gwell her ac ymdriniaeth o risg yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau. Fodd bynnag, mae lle o hyd i wella'r trefniadau hyn yn fwy byth trwy nodi'n gliriach sut mae risgiau corfforaethol yn alinio ag amcanion strategol, gan sicrhau bod adroddiadau'r Bwrdd yn darlunio a monitro symudiad y risg dros amser, yn ogystal ag effaith camau lliniaru a sefydlu'r trefniadau'n fwy cyson ledled y strwythur is-bwyllgorau.

**52.** Nododd asesiad strwythuredig y llynedd fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da gyda'i drefniadau archwilio clinigol. Fodd bynnag, mae buddion o hyd mewn nodi'n gliriach sut mae gwaith archwilio clinigol yn gwella gwasanaethau, ei rôl yn y fframwaith sicrwydd a sut mae'n cefnogi Datganiad Sicrwydd Ansawdd y Bwrdd Iechyd.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol sy'n cefnogi sicrwydd bwrdd effeithiol a chanfod a rheoli risg

**53.** Nododd fy ngwaith asesu strwythuredig fod y Bwrdd yn canfod yn ddigonol y prif risgiau a rhwystrau i gyflawni ei amcanion strategol. Fodd bynnag, mae risg o hyd y bydd rhai o is-bwyllgorau'r Bwrdd yn ymdrin gormod â risgiau gweithredol ar draul trefniadau llywodraethu. Mae'r risg hon yn cael ei chydnabod gan y Bwrdd ac eir i'r afael â hi ar gyflymder gwahanol ar draws strwythur is-bwyllgorau'r Bwrdd.

**54.** Er y dylai'r trefniadau sydd ar waith sicrhau y gall y Bwrdd sicrhau llywodraethu a sicrwydd bwrdd effeithiol, gellid cryfhau fframwaith sicrwydd y Bwrdd trwy ddefnyddio gwybodaeth o nifer o ffynonellau gwahanol i helpu i greu darlun mwy cyflawn o'i berfformiad. Byddai hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer rôl craffu'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau, yn darparu mwy o dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac yn rhoi prawf mwy systematig ar ganlyniadau camau gweithredu a phenderfyniadau.

**55.** Mae'r Bwrdd yn mynd ati i ddefnyddio gwybodaeth o'i Aelodau Annibynnol trwy eu rolau fel hyrwyddwyr ac arweinwyr i ddarparu sicrwydd. Er bod y dull hwn yn effeithiol, gyda'i nod o geisio bod 'y gorau o'i fath', mae lle i godi lefel y sicrwydd trwy wahodd adroddiadau'n fwy rheolaidd ar ganlyniadau gwaith Aelodau Annibynnol yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

**56.** Gellid datblygu'r trefniadau uniondeb a phriodoldeb trwy sicrhau bod y staff yn cadarnhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau mae'r Bwrdd wedi eu cyhoeddi ar gynnal busnes. Byddai hyn yn darparu cadarnhad gan y staff eu bod yn ymwybodol o ofynion a gwerthoedd y sefydliad, a chadarnhad o'u hymrwymiad i wneud eu gwaith yn unol â hwy, ac felly'n cryfhau'r amgylchedd rheolaeth.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer llunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol

**57.** Canfu fy ngwaith asesu strwythuredig fod Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2011-12 yn destun gwaith craffu cyffredinol a phroses ffurfiol ar gyfer ei glirio a'i gymeradwyo. Gellid gwella'r trefniadau hyn ar gyfer 2012-13 trwy ystyried yn gynharach beth ddylid ei gynnwys, a gwneud adolygiadau'n amlach o dystiolaeth i gefnogi'r disgrifiad o'r trefniadau a nodir yn y Datganiad.

**58.** Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd y cyfle i adeiladu ar y trefniadau presennol trwy ddatblygu datganiadau sicrwydd blynyddol isadrannol ac adrannol a ddarperir i ysgrifennydd y Bwrdd fel rhan o broses o sefydlu a gwella'r dystiolaeth a nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**59.** Mae gan y Pwyllgor Archwilio rôl allweddol wrth ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ei drefniadau llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth. Rwyf wedi nodi y byddai asesu risgiau corfforaethol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio fel mater o drefn yn helpu i gryfhau'r ffordd mae'r Bwrdd Iechyd yn paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, trwy sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o gywirdeb tystiolaeth i gefnogi'r datganiad.

### Darperir gwybodaeth reoli berthnasol i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau a'r her yn y dyfodol yw sicrhau bod y wybodaeth hon yn canolbwyntio ar y materion sy'n cefnogi craffu a phenderfynu effeithiol ac yn rhoi blaenoriaeth i'r materion hynny

**60.** Canolbwyntiodd fy ngwaith Asesu Strwythuredig ar a yw'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n gallu cael gwybodaeth berthnasol er mwyn cynllunio, gwneud penderfyniadau a thanategu gwaith craffu a sicrwydd bwrdd effeithiol. Canfûm y darperir gwybodaeth berthnasol i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau ond ar adegau darperir cymaint nes ei bod yn llethol ac yn golygu bod risg cuddio negeseuon allweddol. Hefyd, câi rhai aelodau annibynnol nad oedd digon o amser yn aml i archwilio papurau cymhleth yn ddigonol cyn cyfarfodydd. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y wybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n cefnogi'r prosesau sicrwydd a phenderfynu a bod aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor yn meddu ar y sgiliau priodol i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth reoli;
- bod tystiolaeth dda o graffu a herio gan aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor;
- gyda phwyslais cynyddol ar ffynonellau gwybodaeth electronig, bod mwyafrif yr aelodau annibynnol yn dal heb allu gyrchu cyfrifiaduron y GIG;
- y cyflwynir adroddiadau perfformiad a chyllid rheolaidd i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn yr un fformat heb ystyried blaenoriaethau neu berfformiad sy'n newid;
- bod rhai adroddiadau'n cynnwys gormod o ddata, heb fawr ddim dehongli. Golygai hyn fod risg y câi negeseuon allweddol eu cuddio ar adegau;
- y nododd y Bwrdd ac aelodau ei bwyllgorau fod ansawdd peth data'n cael ei beryglu gan godio wedi dyddio; ac
- bod y cydbwysedd gwybodaeth yn dal i dueddu tuag at ofal eilaidd ac mae angen rhoi mwy o sylw i ganlyniadau cleifion a gofal sylfaenol a chymunedol.

## Er bod yna brosesau i gynnal ansawdd data a chydymffurfio â gofynion cyfrinachedd data, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol

**61.** Rwyf wedi cyflawni archwiliad lefel uchel o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod y data mae'n ei gynhyrchu'n ddibynadwy ac yn gywir. Er nad yw'r gwaith hwn wedi ceisio dilysu ansawdd setiau data GIG penodol neu ddangosyddion perfformiad, mae wedi adolygu data demograffig sylfaenol ar gleifion er mwyn canfod faint o wybodaeth sydd wedi'i dyblygu ac sydd ar goll ar systemau Gweinyddol Cleifion a Radioleg. Canfu fy ngwaith, at ei gilydd, fod y Bwrdd Iechyd yn dangos safon dda o ansawdd data, fodd bynnag, mae trefniadau llywodraethu cymhleth yn creu rhwystr posibl i welliant. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod strwythurau llywodraethu ansawdd data'n rhy gymhleth ac yn defnyddio gormod o adnoddau ar hyn o bryd, gydag is-bwyllgorau gweithredol mawr sy'n cynnwys nifer fawr o aelodau sydd eisoes ar y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth;
- bod rhaglenni a phrosesau ansawdd data'n briodol ond bod angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r rhain trwy eu hymestyn i gynnwys gwybodaeth gofal sylfaenol, y mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu arni fwyfwy, a thrwy sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant yn cael eu gweithredu'n gyson ledled y sefydliad; ac
- y canfu ein hadolygiad o systemau gweinyddu data cleifion mewnol nifer gymharol fach o gofnodion wedi'u dyblygu a bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni targedau dilysrwydd data ar gyfer setiau data allweddol.

**62.** Yn ogystal â gwaith ar ansawdd data, rwyf hefyd wedi ymchwilio i drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gweithredu canllawiau Caldicott ar gyfrinachedd data cleifion. Canfu fy ngwaith yr ymddengys fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli a chynllunio priodol i danategu gofynion llywodraethu Caldicott a'i fod wedi mynd ati i gynllunio ar sail ddealltwriaeth dda o gyfrifoldebau o ran cyfrinachedd gwybodaeth. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am y defnydd o'u gwybodaeth, dylid adolygu nifer y stiwardiaid llywodraethu gwybodaeth, a dylid ymestyn y defnydd o amgryptio data.

## Mae paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi helpu i atal a chanfod nifer o achosion o dwyll

**63.** Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. At ei gilydd canfûm fod dull y Bwrdd Iechyd o ymchwilio i achosion o baru o'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei reoli'n dda. Fodd bynnag, mewn ymarferion yn y dyfodol dylai'r Bwrdd Iechyd gofnodi canlyniadau eu holl ymchwiliadau i achosion o baru o'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gymhwysiad gwe'r Fenter. Mae'r Fenter wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i ganfod dau achos o dwyll a gwall gwerth cyfanswm o £16,000 mewn gordaliadau.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

**64.** Yn ystod y flwyddyn hon cyflawnais adolygiad penodol o wasanaethau gofal heb ei drefnu'r Bwrdd Iechyd a'i waith rheoli cyflyrau cronig. Yn ogystal â'r gwaith hwn roedd f'Asesiad Strwythuredig eleni'n cynnwys adolygiad o ddull y Bwrdd Iechyd o gynllunio'r gweithlu a'i ddull o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y broses newid. Crynhoir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwelliannau niferus i'w wasanaethau rheoli gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig ac mae'n arfer dull o drawsnewid gwasanaethau ar sail systemau cyfan. Mae hyn yn cael effaith, er bod angen i'r perfformiad wella'n fwy byth, ac mae pwysau sylweddol o hyd ar wasanaethau acíwt

**65.** Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno amrywiaeth eang o welliannau i wasanaethau ar gyfer rheoli cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu. Mae'r rhain wedi cael effaith, er nad ydynt eto wedi cyflawni'r newid sylweddol disgwyliedig o ran perfformiad neu leihau'r galw. Mae hyn oherwydd:
  - bod pwysau sylweddol o hyd ar wasanaethau acíwt a bod perfformiad y gwasanaethau hyn yn dal i fod islaw'r lefel ddisgwyliedig;
  - y gwelwyd cynnydd da o ran ail-lunio gwasanaethau y tu allan i ysbytai, ond ni chyflawnwyd eto'r newid sylweddol mae ei angen o ran denu gweithgarwch i ffwrdd oddi wrth wasanaethau acíwt; a
  - chyfyngedig fu llwyddiant y Bwrdd Iechyd o ran newid y ffordd mae'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau.
- bod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a strwythurau cadarn ar gyfer cyflawni newid trawsffurfiol, a gefnogir gan ymgysylltu clinigol a gweithio partneriaethol da. Dylai hyn ei helpu bellach i gyflymu newidiadau i'r ffordd y mae clinigwyr yn gweithio a'r ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau. Wrth ddod i'r casgliad hwn canfûm:
  - fod gweledigaeth glir ac uchelgeisiol y Bwrdd Iechyd ar gyfer newid gwasanaethau yn cael ei chefnogi bellach gan drefniadau newydd a gwell ar gyfer cynllunio'r gweithlu; a
  - bod buddsoddiad y Bwrdd Iechyd mewn sefydlu strwythurau llywodraethu a threfniadau rheoli cadarn ar gyfer ei raglenni cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu yn awgrymu ei fod mewn sefyllfa dda i gyflawni newid trawsffurfiol.

## Bu gwelliannau amlwg yng ngwaith y Bwrdd Iechyd wrth gynllunio'r gweithlu, ac mae hyn yn newid sylweddol ers y llynedd

**66.** Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y gweithlu yn gadarn ac wedi'u seilio ar wybodaeth o ansawdd da. Mae fy ngwaith wedi canfod rhai cyfleoedd i wella'r dull presennol, sef:

- nodi cerrig milltir allweddol wrth gyflawni cynllun y gweithlu er mwyn galluogi'r Bwrdd i fonitro cynnydd tuag at lwyddiant;
- sefydlu cysylltiadau gyda sefydliadau iechyd eraill sy'n llwyddiannus wrth weithredu newidiadau o ran cynllunio'r gweithlu, a allai ddarparu sicrwydd ychwanegol ac ysgogi syniadau newydd;
- sicrhau bod y gwasanaeth yn sefydlu perchnogaeth ar gynlluniau'r gweithlu trwy ymgysylltu parhaus ag arweinwyr y gwasanaethau; ac
- integreiddio cynlluniau'r gweithlu ochr yn ochr â chynlluniau cyllid a gwasanaeth yng Nghynllun Tymor Canolig y Bwrdd yn y dyfodol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu dull rhagweithiol, cynhwysfawr ac amserol o ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan annatod o'i ddull o foderneiddio gwasanaethau

**67.** Mae ymagwedd gadarn y Bwrdd Iechyd at ymgysylltiad clinigol ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer cyflawni'r newidiadau sylfaenol i wasanaethau y mae eu hangen. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer gweithio gyda rhandddeiliaid allanol ac mae wedi gwneud cynnydd gwirioneddol a pharhaus wrth ymgysylltu â chlinigwyr a'u gosod ynghanol prosesau penderfynu. Fodd bynnag, mae'n dal i wynebu rhai heriau pwysig wrth newid y ffordd mae clinigwyr yn gweithio a'r ffordd mae'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau.

**68.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amrywiaeth fawr o ddulliau cyfathrebu, er bod angen gwneud mwy wrth geisio cael gafael ar brofiad y claf a'i ddefnyddio, a chynyddu'r ffyrdd o gynnwys y cyhoedd yng ngwaith y Bwrdd Iechyd.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o waith archwilio blaenorol er bod angen mynd i'r afael â rhai camau gweithredu pwysig o hyd

**69.** Yn ogystal â'r gwaith dilynol Asesu Strwythuredig, yn ystod y 12 mis diwethaf rwyf wedi gwneud gwaith i asesu'r cynnydd mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion yn deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol lle y darperir gwasanaethau. Crynhoir canfyddiadau fy ngwaith dilynol yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr archwiliad

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
| --- | --- |
| Contract Meddygon Ymgynghorol | Er y gwnaethpwyd cynnydd da wrth gyflawni rhai agweddau ar gynllun gweithredu'r Bwrdd Iechyd, ni ddatblygwyd trefniadau monitro pwysig ac mae angen gwneud mwy i sicrhau y gweithredir y canllaw cynllunio swyddi'n effeithiol. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• y cyhoeddwyd canllaw cynhwysfawr ar gynllunio swyddi ond mae angen gwneud mwy i sicrhau y caiff ei gyflawni'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd;<br>• na wnaethpwyd adolygiad llinell sylfaen o gynlluniau swydd gorffenedig;<br>• y datblygwyd rhaglen newydd ar gyfer sefydlu meddygon ymgynghorol;<br>• bod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ymagwedd at arweiniad clinigol a datblygu sgiliau sy'n cael ei gefnogi gan fynediad at raglenni hyfforddiant cenedlaethol a lleol; ac<br>• nad yw'r Bwrdd eto wedi cael sicrwydd bod y gwelliannau a nodwyd yn y cynllun gweithredu'r contract meddygon ymgynghorol yn cael eu cyflawni. |
| Trefniadau Adfer ar ôl Argyfwng a Pharhad Busnes | Er na weithredwyd ar yr holl argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad blaenorol yn 2009, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cryfhau ei drefniadau adfer ar ôl argyfwng a pharhad busnes ym maes TGCh. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• bod creu ail ystafell gyfrifiaduron yn Ysbyty Aneurin Bevan wedi lleihau'r risg o golli gwasanaethau TGCh, a bod trefniadau wrth gefn a threfniadau storio wedi cael eu gwella;<br>• bod y rheolaethau amgylcheddol yn y prif gyfrifiadur wedi cael eu cryfhau, er bod rhai problemau heb eu datrys o hyd yn y lleoliad presennol; a<br>• bod yna drefniadau adfer ar ôl argyfwng ym maes TGCh, er bod angen gwneud profion priodol arnynt, ond bod gwaith cynllunio parhad busnes mewn adrannau unigol yng nghamau cynnar eu datblygu o hyd. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Gwasanaethau Mamolaeth | Mae tystiolaeth glir bod y gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau mamolaeth yn cael eu gwneud, er bod angen cynnal y momentwm a bod angen rhagor o waith i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu'n unol â chynlluniau strategol cenedlaethol a lleol. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• y canolbwyntiwyd yn amlwg ar wella gwasanaethau mamolaeth, ac y cefnogwyd hynny gan fframwaith rheoli clir a mwy o bwyslais ar weithio tîm amlddisgyblaethol;<br>• bod gwaith ar y gweill gyda'r cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau;<br>• bod gwell lefelau staffio a dulliau gwell o reoli risg yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol, ond bod angen rhagor o weithredu ar hyfforddi a gwerthuso bydwragedd; a<br>• bod y gwasanaethau a gynigir ar draws y llwybr gofal mamolaeth yn gwella gyda llai o ymyriadau a mwy o gymorth i fwydo ar y fron, er bod angen mynd i'r afael ag amrywiadau yn y trefniadau bydwreigiaeth gymunedol. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers f'Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Dilysu Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Gorffennaf 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno yn yr Adroddiad Blynyddol | Awst 2012 |
| Adroddiad Datganiadau Ariannol i'r Rheolwyr | Medi 2012 |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol ar y Cyfrifon Cronfeydd Elusennol | Hydref 2012 |
| Barn ar y Cyfrifon Cronfeydd Elusennol | wedi'i fwriadu ar gyfer Rhagfyr 2012 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwaith dilynol ar y Contract Meddygon Ymgynghorol | Ionawr 2012 |
| Adfer ar ôl Argyfwng a Pharhad Busnes ym maes TGCh – adroddiad ar y gwaith dilynol | Ionawr 2012 |
| Mamolaeth: gwaith dilynol | Chwefror 2012 |
| Ansawdd Data | Mawrth 2012 |
| Trawsnewid rheoli gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig | Mai 2012 |
| Asesiad Strwythuredig 2012 | Rhagfyr 2012 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2012 | Ionawr 2012 |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2012 – Cronfeydd Elusennol | Gorffennaf 2012 |

Mae hefyd nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain isod, gydag amcangyfrif o ddyddiad cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o ddyddiad cwblhau'r gwaith |
|---|---|
| Rhaglen Eiddilwch Gwent | Rhagfyr 2012 |
| Presgripsiynu Gofal Sylfaenol | Mawrth 2013 |
| Gwasanaethau Orthopedig | Mehefin 2013 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2012 ffi archwilio arfaethedig o £455,486 (heb gynnwys TAW). Mae f'amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r amcangyfrif.

Yn y ffi a nodir uchod, £11,867 yw'r swm am y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk